UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Cyngor Proffesiynol

# Arsylwi gwersi mewn ysgolion

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

# Arsylwi gwersi mewn ysgolion

Mae UCAC o'r farn bod arsylwi gwersi mewn modd cadarnhaol a chytunedig yn gallu cyfrannu tuag at ddatblygiad proffesiynol.

Barn UCAC yw bod hyn yn cael ei gyflawni orau lle mae'r arsylwi'n digwydd oddi mewn i strwythur clir Polisi Arsylwi Gwersi'r ysgol, wedi'i lunio yn dilyn trafodaeth gydag athrawon ac ymgynghori â'r undebau.

Ni ddylai arsylwi gwersi fod yn broses fygythiol, ond yn hytrach yn ffordd y gall aelodau o'r gweithlu helpu ei gilydd, darganfod arferion da y gellir eu rhannu, nodi rhai gwelliannau y gellir gweithredu arnynt a hynny er mwyn gwella addysg y plentyn a gwaith yr athro fel ymarferwr.

Mae UCAC yn bryderus fod pwysau afresymol ar rai athrawon oherwydd y gorddefnydd a'r camddefnydd o arsylwi gwersi.

Mae'r daflen hon yn cynnig arweiniad yn y maes ar gyfer athrawon, arsylwyr ac arweinwyr.

## Cyffredinol

At ddibenion Rheoli Perfformiad ni ddylai athro gael ei arsylwi fwy nag unwaith y flwyddyn ac ni ddylai cyfnod yr arsylwi fod yn fwy nag awr.

Ni ddylai athro gael ei (h)arsylwi fwy na theirgwaith y flwyddyn dan amgylchiadau arferol. Gall cynnal arsylwadau yn rhy aml amharu ar y gwersi a bod yn wrthgynhyrchiol. Gellid cyfuno, lle bo'n ymarferol ac yn briodol, sesiynau arsylwi at ddibenion gwahanol.

Dim ond athrawon wedi'u cymhwyso (â Statws Athro Cymwysedig - SAC) ddylai arsylwi gwersi at bwrpas ffurfiol; dylid rhoi ystyriaeth ofalus wrth ddewis yr arsylwr er mwyn adlewyrchu diben y sesiwn.

Yr unig arsylwi sy'n orfodol yw ar gyfer (1) Rheoli Perfformiad (2) arolygiad gan Estyn; mewn *unrhyw* gyd-destun arall, rhaid gofyn am, a chael cytundeb yr athro; hynny yw, mae hawl i wrthod.

## Cyn yr arsylwi

Dylid rhoi rhybudd digonol a rhesymol; mae UCAC yn argymell rhybudd o wythnos.

Dylid cynnal cyfarfod cychwynnol rhwng yr arsylwr a'r athro i drafod prif amcanion a phwrpas yr arsylwi. Dylid dod i gytundeb ar hyn a chadw ato, gan sicrhau nad oes gormodedd o bwyntiau i'w hystyried.

Wrth gynllunio a rhoi adborth, dylid ystyried amser yr athro a thelerau ac amodau statudol ei ch/gyflogaeth.

Pan fydd Estyn yn arsylwi, nid oes disgwyl i athrawon ysgrifennu cynllun gwers manwl i'w roi i'r arolygydd; mae UCAC yn cynghori mai dyna ddylai'r drefn fod gydag arsylwadau'n gyffredinol. Gall fod yn fanteisiol i athrawon baratoi nodiadau i'r arsylwr, ond mae hyn yn opsiynol.

Byddai'n fanteisiol petai ysgol wedi dod i gytundeb ar ffurflen i gofnodi pob arsylwad.

### Yr arsylwr

Dylid cofio bod arsylwi gwersi'n grefft ac yn fodd i godi safonau pawb sy'n rhan o'r broses; mae sicrhau hyfforddiant arsylwi gwersi i'r gweithlu yn arfer dda ac yn ddatblygiad proffesiynol gwerthfawr.

Dylid amharu cyn lleied â phosibl ar weithgarwch arferol y dosbarth:

- dylai'r arsylwr fod yn bresennol yn y dosbarth ar ddechrau'r wers; gall sefyllfa lle mae athro'n aros am arsylwr am gyfnod fod yn anodd o safbwynt yr athro a'r disgyblion; os bydd arsylwr yn hwyr, awgrymir aildrefnu'r arsylwi; mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol yn achos Taith Ddysgu (gweler isod)
- dylid cyfyngu nifer yr arsylwyr i'r hyn sy'n wirioneddol angenrheidiol er mwyn osgoi tarfu ar y dosbarth

Pan fydd Estyn yn arsylwi, nid ydynt yn rhoi graddau i wersi unigol. Mae UCAC yn cynghori y dylid osgoi gwneud hynny mewn arsylwadau'n gyffredinol am ei fod yn anodd iawn cael cysondeb traws-ysgol ac am fod rhoi gradd i wers unigol yn gallu bod yn arwynebol; mae deialog broffesiynol yn bwysicach na gradd. Fodd bynnag, os oes rhaid graddio, mae angen bod yn wyliadwrus, ac mae'n hanfodol bod dealltwriaeth lawn ynglŷn â diffiniad yr ysgol o'r graddau hyn a pha ddefnydd a wneir ohonynt.

Pan fo'r arsylwi'n rhan o'r broses Rheoli Perfformiad dylid asesu'r wers yn erbyn y targedau/amcanion a osodwyd fel rhan o'r broses honno.

Ni ddylid gofyn barn disgyblion am yr athro.

### Yn dilyn yr arsylwi

Dylai fod adborth a thrafodaeth lafar cyn gynted â phosibl wedi'r arsylwi.

Dylai'r arsylwr gynnig adborth ffurfiol ar y wers o fewn pum diwrnod gwaith, neu yn y cyfnod a bennwyd yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol. Dylai gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a wnaed gan yr athro a arsylwyd yn ystod y drafodaeth lafar yn union wedi'r arsylwi; dylai'r athro gael cyfle i ychwanegu sylwadau ysgrifenedig.

Dylai pob arsylwr edrych ar elfennau cadarnhaol, hyd yn oed mewn gwers siomedig; wedi'r cyfan, pwrpas yr ymarfer yw symud yr athro a'r ysgol ymlaen mewn modd cadarnhaol.

Os bydd targedau wedi'u gosod i'r athro weithio arnynt, dylid trafod amserlen a'r dull o weithio tuag atynt; gallai hynny gynnwys datblygiad proffesiynol neu'r cyfle i arsylwi gwersi athrawon eraill. Os ystyrir y byddai cynnal arsylwad arall o fewn cyfnod penodedig yn fuddiol, dylid dod i gytundeb ynglŷn â hyn yn ystod y sesiwn adborth.

Dylid parchu cyfrinachedd y broses; ni ddylid rhannu'r adborth yn ehangach nag y cytunwyd yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol, ac ni ddylid cadw'r cofnodion mewn man (e.e. mewnrwyd yr ysgol) lle gall nifer o bobl eu gweld.

## Arsylwadau eraill

Mae arsylwi gwersi'n gallu digwydd yn fwy aml dan rai amgylchiadau. Cofier bod angen eich cytundeb i'r rhain a bod hawl gennych i wrthod.

Mae'r enghreifftiau isod oll at ddibenion datblygu/hunanwella ysgol a/neu rannu arfer dda, ac felly mae'r pwyslais ar gasglu tystiolaeth *gyffredinol* (nid ar yr athro unigol), ac ar ddatblygu yn hytrach na beirniadu.

Gall rhai o'r enghreifftiau isod fod ar ffurf 'Taith Ddysgu' (*Learning Walk*). Os felly, dylid gwneud ymdrechion i darfu cyn lleied â phosibl ar y wers.

<u>Rhaid pwysleisio nad oes unrhyw gysylltiad rhwng yr arsylwadau ychwanegol hyn a'r broses Rheoli Perfformiad</u>.

Gall y rhain gynnwys y canlynol:

- arsylwi gan gymheiriaid er mwyn rhannu arfer dda
- arsylwi gan athrawon dan hyfforddiant neu ANG fel rhan o'u datblygiad
- ymweliadau â'r dosbarth gan athrawon sy'n dilyn disgybl penodol am ddiwrnod neu gyfnod penodol
- ymweliad gan aelodau o'r Corff Llywodraethu fel rhan o'u proses fonitro
- ymweliadau gan Swyddogion Consortia neu Awdurdod Lleol ar wahoddiad

Ym mhob un o'r achosion hyn dylai'r ymweliadau ddigwydd dan amodau proffesiynol o barch a dylid cadw at arfer da o ran:

- cyflwyno rhybudd rhesymol

- cytuno ar bwrpas ymweliad
- sicrhau cydsyniad a chydweithrediad yr athro a arsylwir
- rhannu unrhyw adborth/adroddiad efo'r athro ymhob achos
- parchu cyfrinachedd y broses

## Arsylwadau gan ddisgyblion

Ym marn UCAC, ni ddylid, ar unrhyw gyfrif, ofyn i ddisgybl ymgymryd ag arsylwad neu 'daith ddysgu'. Byddai arsylwad o'r fath yn tanseilio proffesiynoldeb y prosesau arsylwi mewn ysgol ac yn andwyol i'r nod o wella'r addysgu a'r dysgu mewn modd cynhaliol.

## Medrusrwydd

Mae'n bosibl hefyd i athrawon gael eu harsylwi dan **Drefn Medrusrwydd**. Byddai hynny'n digwydd yn ôl canllawiau Polisi Medrusrwydd yr ysgol.

## I gloi

Ym mhob achos dylid osgoi sefyllfaoedd lle mae nifer o wersi'n cael eu harsylwi'n agos at ei gilydd a dylid sicrhau nad yw'r nifer neu'r amlder yn achosi straen gormodol neu bwysau annheg ar athrawon.

## Rhagor o wybodaeth

**Gwybodaeth 'Chwalu'r Chwedlau' gan Estyn:**
https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/chwedlau-am-arolygu-wedi-eu-chwalu

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, roger@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, ywain@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, ioan@ucac.cymru
- Iona Davies, Swyddog Polisi, iona@ucac.cymru

**Diweddarwyd: Ebrill 2023**

## Nodiadau

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru